

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Sir y Fflint a Wrecsam



**EIN
CYNLLUN LLES**
2023 – 2028



Cynnwys

Croeso!	3
Pwy ydym ni?	5
Beth ydym ni wedi'i ddysgu?	7
Beth yw'r gyfrinach i'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau?	9
Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	11
Sut daw'r cyfan at ei gilydd	13
Sut fydd y cynllun hwn yn newid pethau?	24
Camau gweithredu ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	26

Croeso!

Croeso i'n taith i helpu gwella lles lleol ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyd a lled ein hardal wedi bod yn gweithio'n agosach â'r trydydd sector, busnesau a chymunedau.

Dim ond drwy gydweithio y byddwn yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r materion cyfoes mwyaf enbyd, megis costau byw a'r argyfwng ynni, tra hefyd yn datblygu ein momentwm i leihau effaith anghydraddoldeb a'r argyfwng hinsawdd a natur.

Pan fyddwn yn siarad am ein cymunedau, rydym yn golygu'r cymysgedd cyfoethog o leisiau rydym yn gweithio gyda nhw - lleoedd, oedrannau, credoau neu ar-lein. Mae gan bob un ohonom ran mewn lle gwell i fyw ynddo, rŵan ac ar gyfer y dyfodol yr ydym am ei weld. Mae hyn yn golygu bod ein hadnoddau naturiol, natur a'n cymunedau yn bodoli yn gytbwys a'n bod yn canolbwyntio ar ddatblygu'r economi leol sydd ei hangen arnom i gefnogi ein camau nesaf.

Mae yna bedwar piler lles - yr amgylchedd, diwylliant, cymdeithas a'r economi. Mae'r rhain wedi'u cydblethu; nid ydynt yn bedair agwedd ar wahân. Ar draws y pileri hyn, mae yna heriau cyffredin o ran anghydraddoldebau a phenderfynyddion iechyd. Oni bai ein bod yn ymrwymo fel cymdeithas i wynebu'r heriau cyffredin hyn mewn ffordd gydgysylltiedig, byddwn yn parhau i wynebu dirywiad yn ein lles.

Os ydyn ni'n meddwl am sut y gall ein bywyd fod yn 2050 a galluogi i bawb gymryd rhan ym mha bynnag ffordd y gallan nhw, yna credwn fod y cynllun pum mlynedd hwn yn ein galluogi i feithrin ein gwydnwch a'n lles.

Rydym am i'n cynllun fod yn ddefnyddiol i'n cymunedau, partneriaid a'n budd-ddeiliaid – i ddangos cyfeiriad a fydd yn llywio eu cynlluniau – boed hwy'n sefydliad mawr neu'n ardal leol. Darparu sylfaen wybodaeth gyson i lywio ein trafodaethau byrion a'n mân ddadleuon. A'n rhoi ni ar ben ffordd ar ein taith tuag at le tecach a gwyrddach.



Pwy ydym ni?

Pwy ydym ni?

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod â sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyd a lled Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau i newid sut rydym yn gwneud pethau. Rydym am wneud yn siŵr y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, fel yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut rydym yn sicrhau iechyd meddwl cadarnhaol a lles i bawb.

Ar ôl gweithio mewn partneriaeth drwy COVID, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam bellach wedi dod at ei gilydd fel un corff. Rydym wedi ymrwmo i weithio'n frwdfrydig ac yn llawn bywyd, a gwrando ar eraill. Mae hyn yn golygu cynnwys ein cymunedau, fel eu bod nhw bob amser wrth wraidd ein cynllun gwasanaeth a darpariaeth ein gwasanaethau. Fel hyn, gall pawb elwa'n deg o'n hadnoddau, ein hasedau a'n gwasanaethau hygyrch. Rydym ni'n gryfach gyda'n gilydd.

Mae gennym bartneriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddefnyddio dull a rennir mewn perthynas â dysgu, gwneud penderfyniadau a gweithredu. Gwneud penderfyniadau a gweithredu. Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau'n cyflogi llawer o bobl leol. Mae pob aelod o'r BGC yn sefydliad angori, yma am y tymor hir ac yn gweithio i'n hardal. Maent yn edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n well i adeiladu lle tecach, iachach. A sut y gallwn fynd ati i ddefnyddio ein pŵer gwario i bweru'r economi leol a meithrin lles.

Mae'n hollbwysig bod y cynllun hwn yn gwrando ar bobl leol oherwydd eu bod yn deall ein hanes a'n cymunedau yn well na neb. Ac felly er mwyn i'r cynllun hwn weithio mae angen i ni feithrin ymddiriedaeth, ychwanegu gwerth a thrawsnewid bywydau pobl. O'n diwydiant ffyniannus ar Lannau Dyfrdwy i derasau ffyniannus Y Cae Ras, rydym yn credu'n gryf mai cydweithio yw'r allwedd i wireddu ein gwir ddyheadau.

Ann Woods

*Cadeirydd Bwrdd
Gwasanaethau
Cyhoeddus Sir y Fflint a
Wrecsam, Prif Swyddog
Cyngor Gwirfoddol
Lleol Sir y Fflint*

Nina Ruddle

*Is-Gadeirydd Bwrdd
Gwasanaethau
Cyhoeddus Sir y Fflint
a Wrecsam, Pennaeth
Ymgysylltu Polisi
Cyhoeddus, Prifysgol
Glyndŵr Wrecsam*

Neal Cockerton

*Is-Gadeirydd Bwrdd
Gwasanaethau
Cyhoeddus
Sir y Fflint a Wrecsam,
Prif Weithredwr,
Cyngor Sir y Fflint*

Cymryd Rhan

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ddefnyddio a rhannu ein tystiolaeth, ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth i lywio'r ffordd yr ydym yn gweithio. Os hoffech chi ymuno â ni, yna cysylltwch:

sustainability@wrexham.gov.uk

corporatebusiness@flintshire.gov.uk



**Beth ydym ni
wedi'i ddysgu?**

Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

Er mwyn sicrhau newid cynaliadwy i Sir y Fflint a Wrecsam bydd angen i ni fod yn feiddgar. Bydd angen i ni feddwl am yr hyn y bydd angen ei newid ymhen 5, 10, 15, 20, a 25 mlynedd i leihau effaith anghydraddoldeb a'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n rhaid i ni adael ein cartref, ein lle a'n byd yn well nag y daethom o hyd iddo.


Agwedd allweddol ar ein hasesiad o les oedd deall y tueddiadau a'r sbardunau mawr sy'n debygol o lunio'r dyfodol yn Sir y Fflint a Wrecsam. Rhoddodd yr asesiad fewnwelediad i sut y gallwn baratoi orau ar gyfer y dyfodol, o amgylch pobl a phoblogaeth, iechyd a therfynau'r blaned, anghydraddoldebau a thechnoleg. Bu i ni ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i lunio ein ffordd o feddwl, gan gynnwys [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#), [Adroddiad Llesiant Cymru](#) ac [Adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru](#) a [Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru](#).

Gwahaniaeth BGC Sir y Fflint a Wrecsam yw'r dystiolaeth gyfoethog yr ydym yn ei chasglu drwy straeon, hanesion a phrofiadau. Drwy rannu sgysiau rydyn ni'n dysgu am ein gilydd a sut gallwn ni adeiladu lle tecach i fyw gyda'n gilydd. Mae ein Cymuned Ymarfer Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (TrACE) yn dod â phobl a sefydliadau ar hyd a lled Gogledd Cymru ynghyd i gymryd rhan mewn 'ymarfer sy'n deall trawma' i ddysgu, rhannu ac arloesi. Bydd hyn yn helpu datblygu capasiti a gallu strategol ar draws y rhanbarth, ac yn galluogi BGC i ddod i ddeall nifer o fathau o brofiadau bywyd a mynd ati i alluogi gwytnwch cymunedol.

Mae ein rhaglen Hanesion Cymunedol eisoes yn datblygu dulliau creadigol fel adrodd straeon i gofnodi lleisiau a phrofiadau amrywiol ein cymunedau. Ac mewn gweithdy Arweinwyr y Dyfodol, dywedodd pobl ifanc o Ysgol Clywedog wrthym y bydd penderfyniadau a wneir heddiw, ar eu rhan yn y cynllun hwn, yn llunio eu bywydau.

Daeth pobl ifanc o bob rhan o Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd â GwE (gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol Gogledd Cymru) ym mis Tachwedd 2021 i gyflwyno sgysiau newid hinsawdd TEDx. Trwy gael lle, roedden nhw'n gallu siarad am y materion sy'n bwysig iddyn nhw. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn gyda mwy o ddiwyddiadau, gan greu ffyrdd gyda'n gilydd o fynd i'r afael â'r materion y mae ein pobl ifanc yn eu nodi.

Ni allwn greu, cyflawni a mesur llwyddiant ein cynllun lles heb weithio gyda'n cymunedau, a dysgu o'u straeon cyfoethog a'u profiadau byw. Dyma pam mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau i gyd-greu ein gweithredoedd.





**Beth yw'r gyfrinach
i hud ein BGC?**

Beth yw'r gyfrinach i hud ein BGC?

Pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd, gallwn gyflawni cymaint mwy. Rydym wedi bod yn datblygu dull arweinyddiaeth systemau ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n wirioneddol arbennig. Mae hyn yn golygu bod pawb yn ymrwmo i newid gwirioneddol, ac yn ymuno â'r mudiad i wella pethau, un person ar y tro. Bydd gan bawb rywbeth i'w roi. Mae llais pawb yn bwerus, a bydd cydweithio yn datgloi'r egni hwnnw.

Gelwir ein dull o gynllunio ar y cyd a gwneud penderfyniadau yn gyfartal gyda'r BGC, partneriaid ehangach a chymunedau oll yn cydweithio ar yr un pryd, yn gyd-gynhyrchu. Rydym yn canolbwyntio ar sut i gynnwys ein cymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau drwy rwydwaith cynyddol o ymarferwyr, hyfforddwyr a hwyluswyr yn Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

Gan weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru, mae'r cynllun hwn wedi'i lunio drwy wahanol raglenni cyfranogi gyda sefydliadau partner a grwpiau cymunedol. Bydd y gwaith hwn yn tyfu dros y pum mlynedd nesaf, a gall gwasanaethau newid wrth i anghenion cymunedau newid.



Mae ein dull arbennig yn golygu:

- Ceisio adeiladu gwerth bob amser fel sefydliadau angori ac arweinwyr cymunedol
- Cymryd agwedd gydgyssylltiedig at yr hyn a wnawn
- Bod yn feiddgar ac yn ddewr a pheidio ag ofni methu
- Defnyddio a rhannu tystiolaeth, gwybodaeth a mewnwelediad i lywio sut rydym yn llunio lles hirdymor.
- Bod yn onest gyda'n cymunedau a'n budd-ddeiliaid
- Sicrhau bod sefydliadau partner y BGC yn gweithredu'n gyflym.
- Defnyddio ein pŵer gwario i ryddhau buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol
- Cael ein tywys gan y cwestiwn 'Felly, pa wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud?'



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Ar sail yr hyn rydym wedi'i ddysgu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ers pandemig COVID-19 a gan ddefnyddio tystiolaeth a data i'n harwain, rydym wedi cynhyrchu dau amcan lles bras a fydd o gymorth i ni oll gydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lles:

- **Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.**
- **Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau iach ac annibynnol.**

Mae ein hamcanion lles maes o law wedi ein galluogi i nodi chwe chanlyniad lle rydym wir eisiau gwella lles. Yna byddwn yn dod â'r cyfan at ei gilydd o amgylch tair thema allweddol: Plant a Phobl Ifanc, Ein cymunedau a Ble rydym yn gweithio.

Pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd, rydym bob amser yn dechrau gyda ffocws i adeiladu tegwch a chydaddoldeb yn yr hyn a wnawn o'r cychwyn cyntaf. Byddwn yn deall ein gilydd yn well drwy sgysiau gonest, sy'n trafod sut y gall effeithiau ein gweithredoedd amrywio ar draws ein cymunedau.

Mae ein hiaith a'n diwylliant Cymreig yn ein cysylltu. Nid yw'n ddigon i ni osod targed ar gyfer defnyddio ein hiaith yn unig. Byddwn yn gwneud llawer mwy i adeiladu ar ein hanes, ein croeso a'n hangerdd. Drwy fod yn chwilfrydig byddwn yn adeiladu cymunedau hyderus ac yn gwneud i newid ddigwydd.

Gwaith y BGC fydd dod â phopeth ynghyd. Dyna'r gyfrinach i'n gwaith yn Sir y Fflint a Wrecsam.





Sut daw'r cyfan at ei gilydd

Sut daw'r cyfan at ei gilydd

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam			
Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.		Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.	AMCANION
Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu.	Plant a Phobl Ifanc	Sicrhau bod ymagwedd gydgyssylltiedig ar draws y sector cyhoeddus at atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pob plentyn a theuluoedd.	CANLYNIADAU
Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur, gan ddatblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy.	Ein Cymunedau	Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da.	
Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau.	Ble rydym yn gweithio	Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau ein cymunedau.	

1. Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.



Plant a Phobl Ifanc

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu.

Drwy ein hasesiad lles, canfuwyd bod canlyniadau mewn perthynas â rhai penderfyniadau cymdeithasol allweddol (cyflogaeth, addysg, diogelwch cymunedol ac iechyd) yn waeth ar gyfer unigolion a oedd yn byw mewn ardal incwm isel. Er bod y proffil cymwysterau cyffredinol yn cynyddu, mae yna anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol o hyd, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys person anabl a phobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn perygl o dlodi incwm. Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi ac yn arloesi yn y modd yr ydym yn paratoi pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol, drwy ddysgu, prentisiaethau a datblygu profiadau a sgiliau bywyd newydd, dysgu meddwl a chwestiynu a meithrin gwytnwch.

Mae gennym gyfle gwirioneddol i ailgynllunio sut rydym yn adeiladu ac yn rhannu gofodau, gwasanaethau a syniadau yn ein cymunedau er mwyn meithrin ymdeimlad o falchder lleol.



Ein Cymunedau

Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur, gan ddatblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy


Newid hinsawdd a'r argyfwng natur yw'r broblem sy'n diffinio ein cyfnod. Mae gennym gyfle go iawn i gydweithio er mwyn ymgysylltu â'n hamgylchedd naturiol a datblygu canlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys gwell iechyd corfforol a meddyliol a llai o risg o afiechyd cardiofasgwlaidd a chyflyrau cronig eraill.

Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yma, o aeafau gwyllt i hafau poeth. Rhaid i ni achub ar y cyfle i adeiladu economi leol gynaliadwy, gan weithio ar draws ein rhanbarth a thros y ffin i dyfu busnesau lleol, gwella bioamrywiaeth a chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ac isadeiledd gwyrdd. Bydd hyn yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd, addasu ein cymunedau i effeithiau hinsawdd sy'n newid a chefnogi gwell canlyniadau lles.

Bydd sgiliau gwyrdd yn gyfran sylweddol o farchnad swyddi'r dyfodol ac felly mae angen i ni roi'r cyfle i bawb yn ein cymunedau gymryd rhan yn y cyfleoedd enfawr ac amrywiol yn y sector hwn. Byddwn yn gwneud cysylltiadau cliriach â phartneriaid lleol a rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau a byddwn yn gweithio gyda'r partneriaethau hyn i gymryd agwedd decach at fesur llwyddiant economaidd, ac i rannu ein syniadau hirdymor.

Yn ein dyfodol, gwelwn fod mathau carbon isel o deithio llesol yn allweddol i gael mynediad at ystod a nifer dda o gyfleoedd cyflogaeth sefydlog sy'n talu'n dda. Byddwn yn hyrwyddo'r syniad o'r gymdogaeth 20 munud lle mae swyddi, cyfleusterau a siopau yn haws eu cyrraedd heb orfod eistedd mewn tagfeydd.

Mae angen sicrhau bod y trawsnewidiad cyfiawn i Gymru sero net yn cael ei reoli'n ofalus i fod yn deg, fel ein bod i gyd yn rhannu'r baich. Bydd yr angen i ddatgarboneiddio ein heconomi a'n cymunedau'n effeithio ar ddiwydiannau, sectorau'r gweithlu a grwpiau economaidd-gymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar y llwybrau, y polisiâu, a'r camau gweithredu a ddewiswn.



Er bod camau gweithredu amgylcheddol, cadwraeth a rheoli presennol yn cael effeithiau cadarnhaol ar les amgylcheddol, mae'r pwysau cynyddol ar fioamrywiaeth yn ei foddi. Yn aml, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig, gallai fod yn anodd mynd allan i fyd natur, oherwydd hygyrchedd neu gysylltiadau cludiant gwael.

Mae tystiolaeth glir bod gan gymunedau gwyrddach drigolion iachach, sy'n fwy egniol, a'u hiechyd meddwl yn well. Mae ein hardaloedd tlotach yn aml yn brin o fannau gwyrdd, naturiol. Dangoswyd bod teithiau cerdded drwy fannau gwyrdd yn lleihau pwysedd gwaed, yn gwella craffter meddwl, yn rhoi hwb i'r cof, ac yn lleihau teimladau o bryder. *Mae gan bobl Japan enw ar y math hwn o brofiad: shinrin-yoku.*

Ble rydym yn gweithio

Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau.

Bu i'n hasesiad nodi rôl allweddol y sector cyhoeddus o ran datblygu cymunedau cadarn, drwy ei rym gwario a'n rôl fel sefydliadau angor. Gyda'n gilydd rydym yn gyflogwr mawr ac amrywiol, o borthorion ysbytai i ddiffoddwyr tân, i'n byddin o ofalwyr.

Bydd cyd-gynhyrchu prosiectau gyda chymunedau a budd-ddeiliaid yn annog amrywiaeth o leisiau o'n cymunedau ac yn golygu ein bod yn nodi'r hyn sy'n bwysig i ardaloedd lleol ac yn atal problemau bach rhag gwaethygu. Mae gweithwyr sy'n gweithio i sefydliadau BGC eisoes yn buddsoddi eu hamser yn eu cymunedau, fel llywodraethwyr ysgol, hyfforddwyr chwaraeon neu drwy drefnu Eisteddfodau lleol. Drwy gydweithio, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud llawer mwy i gydlynu a chefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu ymdeimlad o berthyn ar gyfer pob cymuned, gan atgyfnerthu ein diwylliant Cymreig a rhoi croeso cynnes i geiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr.

2. Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.



Plant a Phobl Ifanc

Sicrhau bod ymagwedd gydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus at atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pob plentyn a theuluoedd.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella lles ein poblogaeth yw drwy atal yr angen i bobl orfod troi at gymorth iechyd a gofal cymdeithasol, ac ymyrryd yn gynnar pan fo angen cymorth. Mae'n arbennig o bwysig defnyddio'r ymagwedd hon mewn cyfnod pan fo'r GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u llethu gan y galw. Gallwn sicrhau ein bod yn ymateb i broffil newidiol Wrecsam a Sir y Fflint, sef ardaloedd lle mae proffil oedran y boblogaeth yn mynd yn hŷn. Gall cadw'n heini ac yn brysur atal pobl rhag teimlo'n unig – doethineb, profiad ac amser ein pobl hŷn yw un o'n cyfrinachau gorau.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn brofiadau gofidus a allai effeithio ar blant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth dyfu i fyny, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â phob un o benderfyniadau cymdeithasol iechyd (lles). Bu i'n hasesiad ganfod bod angen i ni ganolbwyntio ar leihau'r profiadau negyddol hyn, neu byddant yn parhau i effeithio ein poblogaeth ar hyd eu hoes, gan arwain at iechyd gwael, problemau cymdeithasol a marwolaeth gynnar.

Bydd angen i bob un o aelodau BGC weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod atal wedi'i wreiddio ar draws popeth y maen nhw'n ei wneud, gan ganolbwyntio'n gadarn ar y blynyddoedd cynnar, lle gwyddom y bydd buddsoddiad yn cyflawni'r manteision gorau o ran canlyniadau iechyd a lles hirdymor. Bydd hyn hefyd yn ategu anghenion ein poblogaeth hŷn, gan greu amgylchedd ar gyfer heneiddio'n iach.



Ein Cymunedau

Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da.

Mae yna gyfradd uwch o broblemau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru nag yng ngweddill y wlad, a hynny heb i ni ddeall yn llwyr effeithiau hirdymor COVID-19. Gwyddom o asesiad o anghenion poblogaeth Wrecsam fod cyfleoedd pellach i gyd-gynhyrchu gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch yn y gymuned, i wneud newid cadarnhaol i fodel darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Wrecsam. Bydd dull cymuned ymarfer yn rhannu arfer gorau ac yn ein helpu i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer atal yn gynnar. Ac mae cyfle gwirioneddol i ni gael manau gwyrdd iach a gwasanaethau hygyrch, integredig, wedi'u cynllunio'n dda sy'n gweithio i bawb ledled Sir y Fflint a Wrecsam.



Ble rydym yn gweithio

Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau ein cymunedau.

Bu i'n hasesiad ganfod darlun cymysg o ymgysylltiad â'n cymunedau a'n budd-ddeiliaid. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl anabl. Drwy ymrwmo i sgysiau parhaus gwell a mynd ati i chwilio am leisiau anghyfarwydd, rhaid i'r BGC weithio gyda chymunedau a defnyddwyr y gwasanaethau ar ddylunio, darparu a pherchenogi'r gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen.

Mae ein rhaglen Sgysiau Cymunedol Amrywiol Gyda'n Gilydd yn galluogi ymgysylltu ag ystod amrywiol o grwpiau cymunedol ynghylch diogelwch, cydraddoldeb a lles. Gwyddom fod ein poblogaeth hŷn yn cynyddu ac mae angen i ni weithio gyda phartneriaethau eraill i sicrhau bod ein hymagwedd o fudd i bob rhan o'n cymunedau.

Mae'r BGC wedi ymrwmo i weithio gyda chymunedau i alluogi'r sgysiau hyn. Yn aml, ein Cynghorau Tref a Chymuned fydd yn gynghreiriad agos ar lawr gwlad trwy eu cynlluniau lleol.

Rydym yn edrych ar sut y gallai Rheithgor Dinasyddion ar gyfer Gogledd Cymru weithio. Dyma lle mae grŵp o bobl yn dod at ei gilydd i asesu tystiolaeth ac i ystyried mater fel newid hinsawdd a'r argyfwng natur. Gallai'r atebion hyn ein helpu i gyflawni pethau'n wahanol yn y dyfodol.



A photograph of a cable-stayed bridge at sunset. The bridge has a tall, dark, A-shaped pylon with numerous stay cables. The sky is a mix of orange, yellow, and grey. In the foreground, there are several high-voltage power line towers and a large, dark wooden post on the right. The bridge and towers are reflected in the water below.

**Sut fydd y cynllun hwn
yn newid pethau?**

Sut fydd y cynllun hwn yn newid pethau?

Caiff tystiolaeth, ymchwil, straeon cymunedol, technegau a hyfforddiant ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned eu rhannu ym **Mhartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru (PDGC)**, sef man cydweithio ar gyfer y BGC, partneriaid a lleisiau'r gymuned ar draws y rhanbarth. Rydym yn falch ein bod yn defnyddio'r pum ffordd o weithio fel mater o drefn (atal, hirdymor, cydweithredu, integreiddio a chynnwys) i lunio'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau a'n budd-ddeiliaid i gasglu eu safbwyntiau a'u profiadau, fel y gallwn ddathlu a rhannu ein llwyddiant, dysgu o sut rydym yn gweithio a darparu ffordd i gael pawb i gymryd rhan fel ein bod yn gwthio ein gilydd i fod y gorau y gallwn ni.

Rydym yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein trafodaethau yn PDGC. Mae hyn yn golygu y gallwn gydweithio ar wahanol lefelau, gan sicrhau bod ein llunwyr polisi cenedlaethol yn deall lleisiau a syniadau ein cymunedau.

Felly bydd dangos effaith a rhannu'r hyn a wnawn yn fwy nag adroddiad blynyddol neu gyfres o fesurau perfformiad. Byddwn yn defnyddio ein dau amcan lles cysylltiedig fel modd i fframio sgorsiau, a fydd yn archwilio sut orau y gallwn rannu straeon a chaniatáu i'n barddoniaeth a'n caneuon barhau i ffynnu.





**Camau gweithredu ein
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus**

Camau gweithredu ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

O lonyddwch Moel Famau i Ddyffryn Ceiriog tyner, mae angen i ni gydweithio i warchod ein pethau mwyaf nodedig a gwerthfawr, sef y lleoedd rydyn ni'n eu galw'n gartref. Drwy ein hymrwymiad ar y cyd, drwy brofi syniadau, herio effeithiau, a galluogi cyd-gynhyrchu gyda'n cymunedau, byddwn yn parhau i newid pethau er gwell ar gyfer yr hirdymor.


Byddwn yn sefydlu tri Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran lles plant a phobl ifanc, ein cymunedau a'n gweithluoedd, a byddant yn cydlynu ein timau cyflawni. Mae rhai o'r prosiectau y byddwn yn gweithio arnynt gyntaf i'w gweld isod. Ond dim ond dechrau yw'r rhain ar ein tasg a rennir.

Bydd y Byrddau hyn yn dod â phopeth ynghyd, yn gweithredu fel pwynt ffocws i unrhyw un sydd am gymryd rhan a helpu i rannu effaith sut rydym yn gwneud pethau.

Bydd gan bob un o'n prosiectau gynlluniau clir sy'n canolbwyntio ar yr hyn yr ydym am ei gyflawni. Mae gwneud hyn yn golygu y bydd cysondeb ar draws yr hyn a wnawn. Byddwn yn gallu nodi mesurau trawsbynciol a gweld manteision lluosog o gydweithio (a chanlyniadau anfwriadol os na wnawn hynny.)

Plant a Phobl Ifanc

- Ehangu rhaglen Prifysgol y Plant ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint
- Creu rhaglen ymgysylltu a chyd-greu
- Datblygu ein dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar
- Cefnogi'r rhaglen Pwysau Iach yn y gymuned



Ein Cymunedau

- Ehangu ein cam gweithredu cymunedol ar newid hinsawdd
- Cynyddu teithio llesol drwy Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru
- Datblygu rhaglen i wneud yn siŵr bod bwyd iach o ansawdd da yn fforddiadwy ac yn hygyrch
- Cydlynu rhaglen i feithrin sgiliau a chyfleoedd gwyrdd yn y dyfodol
- Cefnogi cymuned ymarfer TrACE
- Hyrwyddo cyfleoedd iechyd a bioamrywiaeth drwy bresgripsiynu cymdeithasol lleol a gwella isadeiledd gwyrdd.

Ble rydym yn gweithio

- Datblygu ffyrdd gwell o gyfathrebu rhwng sefydliadau a'n cymunedau.
- Sicrhau bod sefydliadau'n rheoli eu hadeiladau a'u harferion gwaith i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur
- Defnyddio ein pŵer gwario i ddatblygu buddion lles cymunedol
- Ymrwymo i bolisi gwirfoddoli sy'n cefnogi cymunedau lleol.
- Nodi lle gall sefydliadau ddefnyddio eu hymarferion recriwtio er mwyn galluogi gweithleoedd amrywiol a llewyrchus.
- Tynnu sylw at y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.
- Dod yn sefydliadau sy'n cefnogi maethu

Partneriaid

Dyma Bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r sefydliadau hyn wedi cynorthwyo i ddatblygu a chyflawni Cynllun Lles Sir y Fflint a Wrecsam:



